

TRIOEDD YNYS PRYDAIN:

ALLAN O

LYVYR MR. R. VAUGHAN, O'R HENGWRT,

A GYMHARID OANDDO A'R AMRYW HEN LYVRAU HYN.

CYFRES I.

Llyvyr John Balmer.
Llyvyr Robert Vaughan.
Llyvyr Maredudd Llwyd.
Y llyvyr Cwta. ¹
A llyvyr o law John Jones o'r Gelli Lyfdy.
Mae'n canlyn y trioedd ym mhob un o'r llyvrau uchod; sev, pa un sydd gyntav, ail, a thrydydd, &c.

Trioedd.
Llyvyr John Balmer, a gynnwys ynddo - 70
Llyvyr Robert Vaughan - - - - - 34
Y llyvyr Cwta - - - - - 56
Llyvyr Maredudd Llwyd - - - - - 56
Llyvyr John Jones - - - - - 53
Anowhaneo o'r 24 MARCHOG Llys Arthur - 8

1. TRI henw yr ynys hon.

Y Cyntaf cyn ei chyfanneddu y gelwit hi Clas Merdin.² Wedi ei chyfanneddu y gelwit hi y vel ynys, ag wedy ei gorescyn O Vryt y dodes arni Ynys Bryt, mewn rhai llyfrau fal hyn, ag wedy ei gorescyn o Prydain mab Aedd mawr y dodes arni ynys Prydain.³

2. TEIR prif rann ynys Prydain.

Lloegr, Cymru ar Alban, sef yw hyt yr Ynys honn o Benrhyn Blathaon ym Mhrydyn hyd ym Mhenbryn Penwaeth yg Hernyw naw cant milldir. ai llet o Gricyll ym Monhyt yn Soram, pump cant milldir yw hynny.

A hi a gynhelir tan un goron a thair talaith, ag yn Llundain gwisgo y goron, ag ym Mhenrynn yn y gogledd un or talaethau, arall yn Aberfraw ar 3dd ynghernyw.

3. TEIR prif rag ynys y sydd iddi.

Ore, Manaw, ag Ynys Weith. a seith rag ynys a thrugaint ereill y sy iddi, a phedwar prif anrhyfedd ar ddeg sydd ynddi.

4. TEIR prif afon ynys Prydain.

Temys, Hafren a Hymyr. a their prif Aber a deugaint a chant y sydd ynddi: a phedwar porthfa ar ddega deugaint, ag wyth ar ugaint o brif gaerydd. nid amgen, 1. Caer Alclut. 2. C. Efrawc. 3. C. Geint. 4. C. Wyrangon. 5. C. Lundein. 6. C. Lirion. 7. C. Golu. 8. C. Loyw. 9. C. Seri. 10. C. Wynt. 11. C. Went. 12. C. Grant. 13. C. Dawri.¹ 14. C. Lwytoeet. 15. C. Urnach. 16. C. Fuddei. 17. C. Gorgyrn. 18. C. Lleon. 19. C. Seleminion. 20. C. Gorgorn. 21. C. Mygit. 22. C. Lysidit. 23. C. Beris. 24. C. Lion. 25. C. Weir. 26. C. Caradoc. 27. C. Widawlwr. 28. C. Esc.²

5. TEIR prif borthfa ynys Brydein.

¹ Y 4 hyn ar femrwn.² Clas Meitin medd llyfr arall R. V.

³ Gwed i gwladogi o Brydain ab Aedd mawr arni y galwyd hi ynys Prydain; a chyn ei chyvannedd y llawn coeddyd, a bleiddiaid, ac eirth, ac eveinc, ac ychain banawg ydoedd.—LL. IOR. GWILYM.

¹ C. Dawn.—*Nennius*.

* Rhai llyfrau sydd yn cyfrif saith Gaer angwlaneg: viz. 29. Caer Lyn. 30. C. Ffawyd. 31. Caer Gei. 32. Caer Fyrrdin. 33. C. Arfon. 34. C. Ennarawd. 35. C. Faddon. Rhai o honynt sydd wedi eu diwreiddio yn wallus, ereill yn gyfanedd etto.

Porth ysgewin yngwent. porth wygyr ym Mon a porth wyddno yn y Gogledd.

6. TEIR Archesgobt yn Prydein.

Un o Lundain, yr eil o Gaer Efrawg, ar drydedd o Gaer Lleon ar wysg. Llyfrau enill fal hyn Un o gaer Geint, yr ail o Gaer Efrawe, ar drydedd o Fynyw.

Ac nyt oes dylhet y neb ar yr ynys hon namyn y genedl Gynry ei hun, gweddill yon y Brutannyeit a ddaethant gynt o Gaer Dro.

7. TRI lleithic llwyth ynys Prydain.

Arthur ym Penteyrnedd Ynghaelleon ar Wysg, a Dewi yn pen escub; a Maelgwn Gwynedd yn pen Heneif.

Arthur yn Penteyrnedd Ynghelliwig Ynghernyw, a Betwini¹ yn pen escub, a Charadawc Vreichvras yn pen hyneif.

Arthur yn pen teyrnedd yn Penryu Rhionydd yn y gogledd, a Chyndeyrn Garthwys ym pen escub, a Gwerthmwyl wledig yn pen heneif.

8. TRI hael ynys Prydein. Rhydderch-hael ap Tutwal Tutelut. Mordaf hael mab Servan. A Nudd hael fab Senyllt.

9. TRI gwyn Teyrn ynys Prydain; Rhun mab Maelgwn, Ywein mab Úrien, a Rhufawn befr mab Deorath² wledig.

10. TRI deifniawg ynys Prydain; Gwalcmai mab Gwyar; Llecheu mab Arthur, a Rhiwallon wallt Banhadlen.

11. TRI phost cad ynys Prydein. Du-nawt³ Fur Mab Pabo Post Prydein, Gwallawc mab Lleenawg. A Chynfelyn yn drwsgyl.

12. TRI tharw cad ynys Prydein, Cynfawr Cad Cadwe mab Cynwyd Cynwydyon. Gwendoleu mab Ceidiaw, ag Úrien mab Cynfarch.

13. TRI tharw unben ynys Prydein El-mur mab Cadeir.⁴ Cynhalaf mab Argat, Afaon mab Taliesin (Tri meib beirdd oedd ynt ell tri.)

14. TRI lleddf unben Y. P. Manawydd-an⁵ mab Llyr lledieith, Llywarch hen mab Elidir Lydanwyn, a Gwgawn gwrawn mab Peredur, mab Elifer Gosgorffawr, ac ys sef achaws y gelwyd hwy lleddf unben, wrth na cheissynt gyfoeth ac na allai neb ei luddias iddynt.

15. TRI unben Llys Arthur. Goronyw mab Echel Vor-ddwytwll, a Chadreith mab

Porthfawr gadw, a ffeidwr fflam mab Godo.⁶

16. TRI unben Deifr a Brynrych. Gall mab Dysgyfedawc,⁷ a Diffedel mab Dysgyfedawg,⁸ a Tri meib beirdd oedd ynt ell tri.⁹

17. TRI Gwaewridd¹⁰ Beirdd Y. P. Tristfarudd Bardd Uryen: Dygynnelw bardd Owain a mian¹¹ Ferdie Bardd Catwallawn mab Catfan.

18. TRI ofer feirdd Y. P. Arthur, Catwallawn mab Catfan, Rhyhawteil Morgant.

19. TRI chynweissiat Y. P. Caradawc mab Bran, a Chawrdaf mab Caradawc Freichvras ac Ywein mab Maxen wledig.

20. TRI llynghessawg Y. P. Gereint mab Erbin Gwenwynwyn mab Naf, a March mab Meirchiawn.

21. TRI gwredd faglawg, Y. P. Rineri mab Tangwn a Thinwaed Faglawg, a Ffryder mab Dolor Deifr a Bryneich.

22. TRI eur hualog Y. P. Rhiwallon wallt bauhadden a Rhun mab Maelgwn, a Chatvaladyr Fendigait, a sef y gelwit y gwyr hynny yn hualogyon, wrth na cheffit meirch a berthynei¹² iddynt rhag eu¹³ Meint, namyn dodi hualcu eur am y hegwydled ar bedrenneu eu Meirch tra eu cefneu, a dwy badell eur a dan eu gliniu, ag wrth hyny y gellir padellec y glin.

23. TRI Chadiarchawe Y. P. Caradawc Freichfras, Menwaed o Arllechwedd, a Llyr llwyddawc.¹⁴

24. TRI Galofydd¹⁵ Y. P. Greidiawl,¹⁶ Galofydd mab Eufael Adran, a Drystan mab Tallwch.

25. TRI rhuddfoawg Y. P. Arthur, Rhun mab Beli a Morgant mwynfawr.

26. TRI thaleithiauc cad Y. P. Drystan mab Tallwch Hueil mab Caw, a Chei mab Cynyr.¹⁷ Ceinfarfawg,¹⁸ ag un oedd daleithawc arnaddunt wynteu ell tri, Bedwyr mab Pedrawc oedd hwnnw.

27. TRI glew¹⁹ Y. P. Grudneu, Henpen ac Aedenaw²⁰ eu cynneddfau oedd nad cynt o gad namym ar eu heloreu.

28. TRI Thrahawc Y. P. Sawyl ben

¹ Ffeidur.—Ll. Argraff.

² The 3d omitted in the printed edition.

³ Dyssyndod.—Ll. Argraff.

⁴ Mr. Lilwyd Arch. Brit. Lett. A. makes Arovan Bardd Selys ap Cynan to be one of these, p. 254. 3. col.

⁵ Gwawdrwy.—Ll. Arg.

[Argraff.]

⁶ Avanneddig.—E. Lilwyd. Avan Ferddig.—Ll.

⁷ A digon uchel iddynt.—Ll. Argraff.

⁸ Hyd au.—Ll. Argraff.

⁹ Llydlauc.—Ll. Argraff.

¹⁰ Glewfryd.—Ll. Argraff.

¹¹ Gwgon Gwron.—Ll. Argraff.

¹² Cenyd.

¹³ Uawrchawg.—Ll. Argraff.

¹⁴ Unben.—Ll. Argraff.

¹⁵ Aedenawc [Meibion, Ll. Argraff. & Caifor Aedenaw] Mab Gleisar or Gogledd a Haiaarnwedd ei fam.

¹ Betwini Escop Pennaf Kernyw.—R. V.

² Dewrarth.—Ll. Argraff.

³ Dunawd fwr ap Pabo Index. But in Brut y Brenhinoedd it is Dunawd Fyrr: in Davies' MS. of Bonedd y Saint, Dunawt uwrr.

⁴ Cadegyr.

⁵ Meddian.

uchel, Paseen mab Uryen a Rhun mab Einawu.

29. TRI Ysgymddydd aereu. Gilbert mab Cadgyfro, Morfran eil Tegit, a Gwgan Cledlyfrudd.

30. TRI gwreddfeichiad Y. P. Drystan mab Tallwch a getwis moch March mab Meirehiawn tra aeth y meichiat y erchi y Essyllt dyfot y gynnadl ac ef, ag Arthur yn ceissiaw Un hwlw, ae y twyll, ae y treis ae nys eafas, a Phryderi mab Pwyll amwyn a getwis moch Pen daran Difet yn Glyn Cuweh yn Emlyn, a Choll mab Collfrewy a getwis Henwen Hwch Dallweir Dallen, a aeth yg gorddodo hyt y Mhenryn Awstyn yg Cernyw, ae yna daeth yn y Mor, ag yn Aber Torrogi yg Gwent is Coet i doeth ir tir, a Choll mab Collfrewy ac law yn y gwrych pa ffordd bynnag i cerddai, nae ar for nag ar dir. Ae ym Maes Gwenith yg Gwent i dodwes gwenithen a gwenhynen, ag er hymny y mae goreu lle y Wenith y lle hwnnw.—Ac oddyna ydd aeth hyt y Llonwen ym Penfro ac yno dotwes ar heiddon a gwenhynon, ag er hymny y mae goreu lle heid Llonwen.¹ Ae oddyna y cerdodes hyt Riw gyferthwch yn Eryri, ac yna dotwes ar geneu bleiddiæ ar eyw eryr. ar Eryr a roddos Collfrewy i Ffynach Wyddel or Gogledd, ar Bleiddiæ a ddodes i Fenwaed o Arllechwedd, ar rhei hymny fu fleidd Menwaed ag Eryr Brynach. Ae oddyna ydd aeth hyt y maen du yn Llanfair yn Arfon ac yno y dodwes ar ceneu eath A ceneu hwnnw a fyryws Coll mab Collfrewy y Menai, a honno wedi hymny fu eath Paluc.

31. TRYWYR Hnt a Lledrith Y. Prydien. Menyw mab Teirgwaed, Eiddilie Corr, a Math ap Mathonwy.

32. TRI prif hut Y. P. Hut Math mab Mathonwy a ddysgodd y Wdyon mab Dôn, a hut² Uthr Bendragon, a ddysgodd y Fenyw mab Teirgwaet, ar trydydd hut Rhudlwm Gavr³ a ddysgodd i Coll mab Collfrewi.

33. TRI plrif lledrithiaw⁴ Y. P. Coll mab Collfrewi Menyw mab Teirgwaet,⁵ a Drych eil Cibddar.

34. TRI diwrn teulu Y. P. Teulu Catwallawn mab Catfan a fuont seith mlynedd yn Iwerddon gyt ag ef, ag yn hymny o yspeit ni ofynnasant ddim iawn iddaw rae gorfot arnaddunt y adaw. A Theulu

Gafrau mab Aeddan pan fu y difancoll¹ a aethant yr môr dros eu harglywydd. A Trydydd teulu Gwendoleu mab Ceidiaw yn Arderydd a gynnalsant y vrwydr pythefnos a mis wedi ladd eu Harglywydd, sef oedd rifedi teuluocedd pob un or gwyr hymny un canu wr ar ugaint.

35. TRI amiweir deulu Y. P. Teulu Goronwy Pesyr o Benllyn² a ommeddasant eu harglywydd o erbyniet y gwenwynnwaew gan Lew Llaw gyffies³ yn Llech Oronwy ym blaen Cynfael yn Ardudwy. A theulu Gwrgi a Pheredur a adawsant eu harglywydd Ynghaer Grea⁴ ag a oedd⁵ ymladd traannoeth uddynt ag Eda⁶ Glimmawr ac yna y llas ell⁷ deu. Ar trydydd teulu Alan Fyrgan a ymchoelasant y wrth eu harglywydd yn lledrat⁸ ar y ffordd, ae ollwng ynteu ai weision y Gamlan, ac yna y llas.

36. TEIR gosgorod adwy⁹ Y. P. Gosgorod Mynyddawe Eiddyn yn Cattraeth, a Gosgorod Melyn mab Cynfelyn, a gosgorod Drywon mab Nudd yn Rodwyd Arderyt.

37. TRYWYR a wnaeth y teir mat gyflafan Y. P. Gall mab Dysgyfedawe a laddawdd deu ederyn Gwendoleu, a ieu o eur oedd arnynt, a dwy celein or Cymry a yssynt ar eu ciniaw, a dwy ar eu ewynos. Ac Yscfell mab Dysgyfedawe a laddawt Edelflet¹⁰ frenhin Lloegyr, a Diffedell mab Dysgyfedawe a laddawt Gwrgi Garlwyd, a Gwrgi hwnnw a laddei celein beunydd or Cymry, a dwy bob sadwrn, rhag lladd y sul yr un.

38. TAIR anfad gyflafan Y. P. Eidyn mab Einygan a laddawt Aneurin Gwawtrydd medeyrn¹¹ beirdd. A llawgat trwm bargawt. Eidyn¹² a laddawd Afaon mab Taliesin, a Llofan Llawddino a laddawdd Uryen mab Cynfarch.

39. TEIR anfad fwyellowt Y. Pr. Bwyellawt Eidyn ym pen Aneurin, ar fwyellowt¹³ ym pen Iago mab Beli, ar fwyellowt ym pen Goliden Fardd.¹⁴

40. TRI chyfor a aeth or ynys hon ac ni ddoeth yr un drachefyn o naddynt. Un

¹ Vid. Bede, lib. 1. c. 34. He fought this battle under his father, A. D. 603.

² Bowys.—Ll. Argraff.

³ Llen (q. Llywelyn).—Ll. Argraff.

⁴ Gren.—Ll. Argraff.

⁵ Chyfnod.

⁶ Adda.—Ll. Argraff.

⁷ A. D. D. 584.—R. V.

⁸ Wrthaw o hyd nos.—Ll. Argraff.

⁹ Addwyn. q.

¹⁰ Edefiffed ffesoc.—E. Llwyd.

¹¹ Mechdeyrn, q.

¹² Neu llawgat Trwm Bargot neu Lwm bargot Eiddyn.

¹³ Fwyellowt.

¹⁴ Golyddan Fardd.—Ed. Llwyd.

¹ Neu Llovion neu Llonion neu Llonwen.

² Sev Myrddin.

³ Gwythelin Gorri.—Ll. Argraff.

⁴ Lledrithiauc.

⁵ Teirgwaedd.—Ll. Argraff.

aeth gau Yrp Lluyddawc hyt yn Llychlyn a ddoeth yma yn oes Cadyal¹ mab Eryny erchi cymhorth yr ynys hon. Ag nyt archodd o bob prifgaer namym cymmeint ag a ddelei guitho iddi; ac ny ddoeth gantaw ir gaer gyntaf namym ef a Mathutafwr² ei was, ac ardustru fu gan wyr yr ynys honn roddi hynny iddaw. A hwnnw cissoes llwyra lluydd a fu a aeth or ynys honn, ac ni ddoeth drachefyn neb o naddyt mae llinys: sef lle trigwys y gwyr hynny yn dwy ynys yn ymyl Mor Groec. Sef ynt y ddwy ynys Gals ac Afena. Eil cyfor a aeth gan Gaswallawn mab Beli a Gwenwynwyn a Gwanar meibion Lliaws mab Nwyfre ac Arianrhodd Merch Beli eu main, ac o Arllechwedd³ y hanoedd y gwyr hynny Ac ydd aethant y gyt a Chaswallawn eu hewythr yn ol y Cessary⁴it trwy for, sef lle y maent yn Gwasgwyn. Y trydydd a aeth gan Helen luyddawc a Chynan ei brawt, sef eirya a aeth ym mhob un or lluoedd hynny 61,000, ar rhei hynny oedd y tri arianllu sef achaws y gelwit felly, wrth fynet eur ag ariant yr ynys ganthynt, ae hethol o oren i oren.

41. TEIR gormedd a ddoeth yr ynys honn ac nyt aeth yr un drachefyn. Cywdawt y Coranyeit a ddoethant yma yn oes Lludd mab Beli, ac nid aeth yr un o naddyt drachefyn. Eil gormes y Gwyddyl Ffichdi ag nid aeth yr un drachefyn. Trydydd gormes y Saesson, ac nid aethant drachefyn.

42. TRI Sanctaidd Linus Y. P. Llinus Bran ab Llyr,⁵ a llinus Cunedda Wledig, a llinus Brychan Brycheiniawc.

43. TRI gwestai gwynfydedig Y. Pr. Dewi, Padern a Theiliaw.

44. TRI chorff a wnaeth Duw er Teilaw, un sydd yu Llandaf y Morganwce, yr eil yn Llan Deilo fawr, y trydydd ymhen Alun yn Dyfet. mal y dyweit yr ystoria.⁶

45. TRI chudd a tliri dateudd⁷ Y. Pr. Un o naddyt pen Bendigeid Fran fab Llyr a gladdwyd yn y Gwynfryn yn Llundein, a hyt tra fa yn yr ansawdd honno, ni ddoe ormes ir ynys honn fyfth. Eil, esgyrn Gwrthefyr Vendyeit a gladdwyd ymhrif byrth y ddinas y drydydd eudd y dreigiau yn ninas Pharan yg creigiau Eryri ar tri chudd hynny anpoyt⁸ gwaeth

¹ Ve allai Cadell, mab Gereint, y 43 brenin wedi Brutus, ogyll 300 mlwydd cyn Crist.

² Mathuta fawr, q.

³ Erch a Heledd.—E. Llwyd.

⁴ Joseph o Arimathea, mewn rhai llyvrau; ond yn cebyg mai y mynaich a'i dodes yn lle yr enw arall.

⁵ Legend.

⁶ Tri Matgudd a thri annfatgudd.

⁷ Hanpwyt.

oi dateuddiaw. Arthur a ddatguddiodd bemn Bendigeid Fran or Gwynfryn yn Llundein. Can ny oedd ofer ganthaw cadw yr ynys o Gadernid neb namyn yr eiddaw e hun. Gwrtheyrn Gwrtheneu a ddatguddiodd esgyrn Gwrthefyr fendigeid ei fab o serch ar Ronwen ei wreig, ag hefyd a ddatguddiodd y drengiau o ddinas ffaran, yr hon a elwit wedy hynny dinas Emrys.

46. TEIR drut aerfa Y. P. un o naddyt pan ddeuth Medrawt y Gelliwig yng Hernyw, nyt edewis yn yllys na bwyt na diawt nys treulie i a thynnau Gwenhwyfar o'r rhieingadair. Yr eil pan ddaeth Arthur i lys Medrawt, na bwyt na diawt nys treulie, na dyn na llwdn yn fyw yn y Cantref: ar trydydd aerfa pan ddaeth Aeddan Vradog hyt yn Alchl i lys Rhydderch hael nyt edewis na bwyt na llynn, na llwdn yn fyw.

47. TEIR ofergat Y. P. un fu gat Goddeu Sef y gwnaethpwyd o achaws gust ar iwrch fochyll⁹ a Chornigill, yr eil fu gwaith Arderydd a wnaethpwyd o achaws nyth yr ehedydd, ar drydydd oedd waethaf Sef oedd honno Caunlan, a honno a wnaethpwyd o gyfryssedd Gwenhwyfar a Gwenhwyach Sef achaws y gelwit hwynt yn ofergateu wrth eu gwneuthur o achaws mor ddiffrywyd a hwnnw.

48. TRI anfad gyngor Y. P. rhoddi i Vleassar a gwyr Rhufein le i garneu blaen eu meirch ar y tir ym Pwyth meinlas. yr eil gadel Hors a Hengys a Rhonwen yr ynys honn. ar trydydd rhannu o Arthur y wyr teirgweitha a Medrawt yng Camlan.

49. TRI hualogion¹⁰ teulu Y. P. Teulu Catwallawn¹¹ Llawhir a dddosaut hualeu eu meirch ar eu traed pob deu o naddyt wrth ymladd a serrigi wyddel yng Cerrig y Gwyddyl y Mon, a theulu Rhiwallon mab Uryen yn ymladd ar saeson, a Theulu Belyn¹² o Leyn yn ymladd ag Etwyn ym mrynn Ceneu¹³ yn Rhôs.

50. TRI goruchel garcharawr Y. P. Llyr Lledieith yng Carchar Oeuroswydd wledig, ar eil Madog mab Medron, ar trydydd Geyr mab Geyrybet¹⁴ ac un oedd Oruchelach na'r tri, sef oedd hwunw Arthur a fu deirnos yng Caer Oeth ac annoeth A theirnos y gen Wen Bendragon a theirnos yg carchar kudd dan y llech a chymreint¹⁵ ag un gwas ac dillyngwys or tri charchar

⁸ Fechwys.

⁹ Hualoc.—Ll. Argraf.

¹⁰ Casswallon.—Ll. Argraf.

¹¹ Belau.—Ll. Argraf.

¹² Edwin.—Ll. Argraf.

¹³ Geyryoet.

¹⁴ Echemeint.—Ll. Argraf.

hynny, Sef oedd y gwas Goreu fab Cusennin y gefnderw.

51. TRI anfawt palfawt Y. P. Palfawt Matholwch Wyddel, ar Vranwen merch Llyr, a phalfawt Arthur ar Fedrawt, a phalfawt Gwenhwyfar ar Wenhwyfach.¹

52. TRI gwyn dorllwyth Y. P. Uryen ac Eurddyl plant Cynfarch hen a fuant yn un torllwyth ynghalon Nefyn merch Frychan eu Mair, yr eil Owein ap Urien a Merwydd² ei chwaer a fuant yn un torllwyth ynghalon Modron merch Afallach, y trydydd Gwrgi a Pheredur a Cheindrech pen ascell plant Elifer gosgorddfawr a fuant ynghalon Eurddyl ferch Cynfarch eu mam.

53. TRI Serchawg Y. P. Caswallawn mab Beli am Flur merch Fugnach Gorr, a Thrystan Mab Tallwch am Esvyll gwreig March Meirehiawn ei ewythr, a Chynon ab Clydno Eiddun am Forwydd ferch Urien.

54. TRI diweirferch Ynys Pryd. Treul disefyl ferch llynghesawl llawhael, Gwenfadon ferch Tutwal Tutclud, a Thegeu Eurfron.

55. TEIR diweirwreig Y. P. Ardu³ gwraig Cadcor⁴ ap Colwyn,⁵ Efiliu gwraig wydyr drwm,⁶ ag Emerchedr⁷ gwraig Fabon⁸ ap Dewi hen.⁹

56. TEIR anniweirwreig Y. P. Teirferched Culcynawyt Prydein. Essyllt Fyngwen gordder¹⁰ Trystan, a phen arwen gwreig Owein mab Urien, a Bun gwreig Fflamddwyn.

57. TAIR prifllys Arthur, Caer Llion arwyse Ynghymry, a Chelliwig yg kernyw, a Phenrynn rhionedd yn y gogledd.

58. TAIR prifwyl yn y teirllys hyn. Pasc, Nadolie a Sulgwyn.

59. TEIR prif riain Arthur. Gwenhwyfar merch Gwythyr mab Greidiawl, a Gwenhwyfar Gawryd Ceint, a Gwenfwyfar ferch Ogryfan gawr.

60. TEIR prif gariadwreig Arthur, Garwen ferch Henyn A Gwyl ferch Eudawd, ac Indeg ferch Afarwy hir.

61. TRI Marchawg llys Arthur a gawsant y greal. Galath vab Lawnselot dy Lak, a Pheredur mab Efrawe Iarll, a Bort mab brenin Bort. Y ddeu gyntaf

¹ Gwenhwy fach.

² Morfudd.

³ Arddun.—Ll. Argraf.

⁴ Cadrot.—Ll. Argraf.

⁵ Gorolwyn.—Ll. Argraf.

⁶ Drwn.—Ll. Argraf.

⁷ Emthryd.—Ll. Argraf.

⁸ Ll. Argraf, Mabon ap Dowengan.

⁹ Dewyngan.—Ll. Argraf.

¹⁰ Gordderch.

oedd y wery o gorff a'r trydydd oedd ddiweir am na whaeth pechawd enawdol ond unweith a hynny drwy brofedigaeth yn yr amser yr ennillawdd ef.....¹ o ferch Brangor yr hon a fu ymrodres yn Constantinobl, or honn y doeth y genhedlaeth fwyaf o'r byd, ag o genhedlaeth Joseph o Arimathea y hanoeddyn ell tri, ac o lin Dafydd brophwyd mal y dystolaetha ystoria y Greal.

62. TRI anheol llys Arthur, Etheu mab Gwrgon, a Choleddawg mab Gwynn, A Gereint hir mab Geneirnon hen.

63. TEIR neges a gaffad o Bowys, un o honyn yw Cyrchu Myngan o Veigen hyt yn Llau Silin erbyn anterth drannoeth y gymryt y eynneddfeu y gan Gadwallawn Fendigeit, wedi lladd Ieuaf a Griffri hyt ym Mryn Griffri erbyn y bore drannoeth wrth ymchwelyd di ar Edwin y 3.....

64. TEIR gwrofrynn Y. Pr. un oedd Lleweli ferch Seithwedd, a Rore ferch Usber, a Mederei badlefawr.

65. TRI Arfeddawg ynys Pryd. Selyf mab Cynan Garwyn, ac Afaon mab Taliessin a Gwallawc mab Lleeanawc. Sef achaws y gelwit hwynt yn Arfedogion wrth ddial eu cam oe oe bed.

66. TEIR phorthor gweith Perllan Fan-gor, Gwggon gleddyfrudd, a Madawc ap Rhun,² a Gwiawn ap Cyndrwyn.³

67. TRI ercill o bleit Lloegyr. Hawystl⁴ Drahwg, a Gwaetym⁵ Herwnden⁶ a Gwiner.⁷

68. TRI eurgelein Y. P. Madoc mab Brwyn A Cheugan⁸ Peilliawt, a Ruawn Pefyr ap Gwyddno.⁹

69. TRI tharw ellyll Y. P. Ellyll Gwidawl A ellyll Llyr merini, ag ellyll Gyrth-mwl wledig.

70. TRI gwydd Ellyll Y. P. Ellyll Ban-nawc, ac Ellyll ednefedawe drythyll ac Ellyll Melen.¹⁰

71. TRI thrwyddedawe ag anfoddawc Llys Arthur. Llywarch hen, Llemenig, a Heledd.¹¹

72. TEIR Llynges gynweir ynys Prydain llynges Llawr mab Eirif, a llynges Difwg mab Alban, a llynges Doler mab Mwrchath.

73. TEIR gwenriain Y. P. Creirwy

¹ Yr enw ar goll.—Ll. P. P.

² Y Cynneddfa.—Ll. Argraf.

³ Gwggon Gyndrwyn.—Ll. Argraf.

⁴ Hastyll.

⁵ Gwentym.

⁶ Herwm.

⁷ Gwymor.—Ll. Argraf.

⁸ Cynefin.

⁹ Aaron ap Gwyddno Befyr.—Ll. Argraf.

¹⁰ Melu.—Ll. Argraf.

¹¹ Llwmhunic ap Mauron a Heledd ferch Gyndrwyn.

merch Ceritwen¹ ac Arianrhod ferch Don, a Gwenn ferch Cywryd ap Crydon.

74. TEIR gohoyw riein Y. P. Angharaton felen merch Rhydderch hael, ac Anau merch Meic² mygotwas, a Phenwyr. ferch Run ryfeddfawr.

75. TRI budr Hafren. Catwallawn pan aeth y weith Digoll a llu Cymry ganthaw ac Etwin or parth arall a llu Lloegr ganthaw ac yna y budrawdd Hafren oi blaen tua ai haber: ar eil cyfarws Golydan y gan Einiawn fab Bed Brenhin Cernyw, ar drydedd³ Calan faerh Idon ap Nery gan Faelgwn.

76. TRI brenhin a fuant o feibion eillion, Gwryat vab Gwryan yn y Gogledd, a Chadafael vab Cynfedw yng Gwynedd, a Hyfeidd fab Bleiddig, yn Deheu-barth.

77. TRI Eurgryd Y. P. Casswallawn mab Beli pan aeth y geisiaw Flur⁴ hyt yn Rhufein, a Manawydan mab Llyr. pan fu hyt ar Ddyfet A Llew llaw gyffes pan fu ef a Gwydion yn ceissaw henw ac arfeu y gan Riarot y Fam.⁴

78. TAIR rhiaint ardderchawg llys Arthur, Dyfyd wallt eureid, Enit Verch Iniwlarll a Thegeu Eurfron.

79. TRI pheth a orchfygodd Loegyr. Cynnwys dieithraid, ryddiau Carcharorion, ac anrhed y gwr moel.

80. TRI dyfal gyfangân ynys Prydein, un oedd yn ynys Afallach, yr ail ynghaer Garadawc, ar trydydd y Mangor; ymhob un or tri lle hynny yr oedd 2400 o wyr crefyddol ac or rheini 100 cyfniodol bob awr or 24 yn y dydd ar nos yn parhau mewn gweddieu a gwasanaeth i Dduw yn ddi drang ddiorphwys.

81. TEIR prif ormes Mon a fagwyd ynddi, Cath Paluc, yr eil oedd Daronwy, ar trydydd Edwin frenhin Lloegr.

82. TRI marchog aurafodiawc llys Arthur, Gwalchmai mab Gwyar, Drudwas mab Tryphin ac Eliwlod mab Madawc ap Uthur. Gwyrr doethion oeddynt, ac mor deg a llaryeidd ac mor hyawdl a hynaws yn eu hymadroddion ac i byddei anodd i neb ballu iddynt or negesseu a geisynt.

83. TRI brenhinol farchog oedd yn Llys Arthur Nasiens brenhin Denmarc, Medrod mab Llew ap Cynfarch, a Hywel mab Emrys Llydaw. Gwyrr mor llaryeidd hynaws a theg eu hymadroddion oeddynt ac i byddei anodd gan neb ballu iddynt ar a geisynt.

84. TRI chyflawn farchawg oedd yn llys

Arthur. Un oedd Blas mab tywyssog Llychlyn yr eil Cadawc mab Gwynlliw filwr ar trydydd oedd Padrogl paladr ddellt, eu cynneddfieu oedd amddifynn amddifaid gweddwon a gwyrifon rhag traes, cam a gorddwyl, Blas trwy gyfraith fydd, Cadawc trwy eglwys, a Phedrogl trwy gyfraith Arfeu.

85. TRYWYR a ddianchasont o Gamlan, Morfran Mab Tegit, Sanddef bryd Angel, a Glewlwyd gafaelfawr: Morfran rhag ei hacred canys pawb yn tybyed mai cythreul oedd, ai gocheleint Sandde gan ei laned ai deeced ni chododd neb law yn ei erbyn gan dybied mai Angel oedd a Glewlwyd rhag ei faint ai gryfed pawb a ffotent rhagddaw.

86. TRI chyngioriad farchog Llys Arthur, Cynan ap Clydno Eiddun, Aron ap Cynfarch, a Llywarch hen ap Elidir Lydyanwyn.

N. B. Nesaf yn llyvyr Mr. Vychan y canlyn trioedd y meirch, y rhai a adawaf heibio tan y diwedda.

87. TEIR gwyydd balfawt ynys Prydein. Palfawt Matholwch Wyddel ar Franwen merch Llyr yr eil palfawt a drewis Gwenhwys Fach ar Wenhwysfar, ag o achaws honno y bu waith Camlan wedi hynny, ar trydydd a drewis Golyddan Fardd ar Gadwaladr Fendiceit.¹

88. TRI chyndynniawe Y. P. Eiddilic Corr. a Gweir gurhyt fawr, a Drystan.

89. TRI gogydurdd Llys Arthur. Ryhawt eil Morgant, a Daillaf eil Cunyn Cof, a Drystan eil March.

90. TRI dyn goreu wrth osp a phellenigion² Gwalchmai fab Gwyar Gadwy fab Gereint, a Chadyrieith Saidi.³

91. TRYWYR gwarth Yn. Pr. y cyntaf o naddunt Afarwy vab Lludd ap Beli mawr: ef a ddyfynawdd Iul Cesar a gwyr Rhufein yr ynys honn ac a beris talu 3,000l. o ariant bob blwyddyn yn teyrnaget o'r ynys hon i wyr Rhufein yr eil fu Gwrtheyrn M. Gwrtheneu, a roddeis tir gyntaf ir saeson yn yr ynys honn, ac a ymddyweddiad gyntaf ac wynt, ac a beris lladd Custennin Vyn. mab Custennin Fendigeit oe dwyll, a dehol ei frodyr Emrys ac Uthur Bendragon or ynys honn hyt yn Llydaw, ac yn y diwedd dychwelsant ac ai llhosgosant ynteu Ynghastell Gwerthrynniawn ar lann Gwy er dial eu brawd. Trydydd gwaethaf oll fu Medrawd ap Llew ap Cynfarch pan edewis Arthur lyw-

¹ Gwel Tri. 51 a 47.

² Neu fal hyn, Trywyr goreu yn llys Arthur wrth osp a phellenigion.

³ Mewn lle arall, a chadeiryieith Saidi.

¹ Caridwen wrach Gwraig Tegit.

² Mogotwas Aneirin.

³ Merch Iddon mab Ynyr Gwent.

⁴ Fram, mewn rhai llyvrau.

odraeth Ynys Prydein ganthaw, a chwedi ei fyned ynteu trwy for yn erbyn yr ym-erawdwr tu hwnt y synnydd Mymieau lle i llas gorengwyr Arthur Pan glybu Medrawd gwahanu nifer Arthur.

92. TRI phrif fardd ynys Prydein Merddin Emrys, Merddin mab Morfryn a Thaliesin beam Beirdd.

TRIOEDD Y MEIRCH.

1. TRI meirch a ddugynt y tri Marchlwyt Du moroedd, march Elidir Mwynfawr a ddug arnaw Seithlyn a hanner o Benllech Elidir yn y Gogledd hyt ym Mhen llech Elidir y Môn. Sef y Seithlyn oedd ynt Elidir ag Eurgain ei wraig, merch Maelgwn Gwynedd, a Gwynda gyoct,¹ a Gwynda Reinyat² A mynach Nowmon³ y gynghorwr, a phrydelyw menestyr gwallofiad, ac arianfagl ei was a Gelbenefin ei gog a nofies ai ddwylaw ar bedrain y march a hwnnw fu hanner y dyn. Yr eil Marchlwyt a dduc Cornan⁴ march meibion Elifer Gosgorddfawr,⁵ a ddwg Gwrgi a Pheredur arnaw a Dunawt uwr⁶ a Chynfelyn Drwsceyl y edrych ar fygedor⁷ Gwenddoleu yn Arderydd. Ar trydydd marchlwyt a ddug⁸ Gweir a gleis ac Arthanat yn erbyn Allt Faelwc⁹ yng Heredigywawn yn dial eu tat.

2. TRI rhoddedig farch ynys Prydein Meinlas march Caswallawn ap Beli a Mel-yngan mangre march llew¹⁰ llaw gyffes, a Lluagor march Caradawe freichfras.

3. TRI phrif eddystr ynys Prydein; Du hir tynniedig march Cynan Garwyn, ac Awyddawr¹¹ breichir march Cyhoret eil

¹ Gywet.—Ll. Argraf.

² Gwyn Dareniat.—Ll. Argraf.

³ Namon, Nawmod.—Ll. Argraf.

⁴ Corman.—Ll. Argraf.

⁵ Olifer.—Ll. Argraf.

⁶ q. Dunawt fyr. Vid.—Tri 11.

⁷ Rygndorth. Ll. Argraf.

⁸ Llwyn Gweir Pngleis Rhiw Arthen ac Allt Faelawr yn Ngħareldigion.

⁹ Allt Faelwr.

¹⁰ Lles.—Ll. Argraf.

¹¹ Trwyddawc.—Ll. Argraf.

Cynan.¹ Rhuddfreon Tuthfleidd march Gilbert mab² Cadgyfro.

4. TRI anrheithfarch Y. P.³ Carn Afawg march Ywein mab Uryen, Tafawt hir march Catwallon mab Cadfan, a Bucheslon march Gwgawn Gleddyfrudd.⁴

5. TRI gordderch farch Y. P. Fferlas march Dalldaf eil Cunin cof, a Rhuddfrych march Rahawt eil Morgant, a Gwelwgan gohoywgein march Morfran eil Tegit.

6. TRI goltoew eddystr Y. P. Llwyd march Alser mab Maelgwn, a Gwineu gwddwf hir march Cei. a Chethin carn aflawg march Iddon mab Ynyr Gwent.

7. TRI thom eddystr Y. P. Du march Brwyn Mab Cunadaf ac Arfwl felyn march Pascen mab Uryen a rhuddlwyd, march Rhydderch hael.⁵

8. TRI rhedegfarch ynys Prydein y torrlydan a gloyn deufarch Collawn mab Berchi, ar Cethin cyfym march Dinogam mab Cynan Garwyn.

9. TRI ymladdfarch ynys Prydein Lluagor march Caradawe Vreichvras, a Mel-yngan mangre march Llew Llaw gyffes ag awyddawe freichir march Cynhored eil Cynon.

10. TRI prif ychen ynys Pryd. Melyn gwanwyn⁶ a gwinau ych Gwlwlwyd ar ych brych bras o benrhew.⁷

11. TEIR prif fuwch ynys Pryd. Brech fuwch Faelgwn Gwynedd a thonllwyd buwch meibion Olifer Gosgorddfawr a Chornillo buwch Llawfroedd farfawc.⁸

Felly terfynes troedd y meirch herwydd Sion Balmer.

¹ Ruthr reon, ruddfrom, rathr reon, Rudd fron Tuthbleid a ruthrfrom.

² Tair.—Ll. Argraf.

³ Carnaflaw Gr. ap Maredudd.

⁴ Bucheslon seri march Gwgton Gleiffrudd.

⁵ Ellemenic. Medd Sion Balmer yn lle'r olaf, ac Ysgwydfrith march Llemenic mab Mawan. Mr. Vychan ydoedd wedi chwanegu at Trioedd y Meirch wrth Tri 7 val hyn; Tri thom eddystr ynys Prydain Gwineu gwddwf hir march Cai, a Grei march Edwin a llwyd March Alser ap Maelgwn.

⁶ Gwylhywyn.

⁷ Bras y benren.

⁸ Farchawc.